Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol
awen Cultural Trust

# Amlinelliad o'r Swydd

### Teitl y Swydd:
Rheolwr Parc Gwledig

### Sail:
Llawn Amser

### Cyflog:
Gradd 6

### Statws:
Parhaol

### Lleoliad:
Parc Gwledig Bryngarw

### Yn atebol i:
Rheolwr Datblygu Gwasanaethau a Hyfforddiant

### Yn atebol am:
Goruchwyliwr Parc Gwledig a Pharcmon Parc Gwledig

## Eich Rôl:

Fel unigolyn cymwys, profiadol a brwdfrydig, byddwch yn arwain tîm ein Parc Gwledig ac yn canolbwyntio ar reoli cadwraeth a phrofiad ymwelwyr.

Rydym yn chwilio am arweinydd brwdfrydig sydd â chefndir mewn rheoli parciau gwledig ac sy'n gallu dangos sgiliau cadwraeth natur ragorol, gan arwain ar weithrediadau dydd i ddydd y parc fel rhan annatod o dîm y parcmyn tra hefyd yn gyfrifol am wella profiad yr ymwelwyr.

# Yn y swydd, byddwch yn:

- Arwain ar ddatblygu a chyflwyno'r hyn sydd gan y parc i'w gynnig i ddarparu profiad rhagorol i bawb. Byddwch yn arwain yn ymarferol tîm y parcmyn i gyflawni uchelgais Awen i'r parc fod yn gyrchfan o ddewis.
- Rheoli rhedeg a gweinyddu ardaloedd ymwelwyr a chyhoeddus yn effeithiol ac effeithlon yn y parc e.e. Canolfan Addysg Y Nyth, ein Canolfan Ymwelwyr a gweithredu fel Person Cyfrifol y Safle.
- Gweithio gydag Uwch Reolwyr i ddatblygu gweithrediad gwerthu proffidiol ac effeithlon sy'n cyfrannu at brofiad cyffredinol yr ymwelydd ac sy'n adlewyrchu gwerthoedd Awen.
- Nodi a chwblhau ceisiadau grant lle mae cyfleoedd yn codi.
- Rheoli a datblygu polisïau gan gynnwys ein cynlluniau rheoli parciau a choedwigoedd i sicrhau eu bod yn gyfredol, yn cydymffurfio ac yn bodloni anghenion y busnes.
- Bod yn atebol am y broses asesu risg, gan gynnwys cynnal asesiadau risg perthnasol, archwiliadau o goed ac offer chwarae, adrodd ar ganfyddiadau, a darparu cyngor i Uwch Reolwyr i sicrhau cydymffurfiaeth iechyd a diogelwch.
- Rhoi cefnogaeth i reoli cyllidebau.
- Delio â materion adweithiol gan gynnwys ymholiadau gan ymwelwyr a allai gynnwys digwyddiadau cymorth cyntaf, ymholiadau peiriant maes parcio ac ati.
- Cynnal gweithgareddau parc o ddydd i ddydd gan gynnwys agor a chau'r parc, rheoli gwastraff, gwiriadau toiled rheolaidd, cynnal a chadw a thasgau rheoli cefn gwlad eraill.
- Darparu gweithgareddau a phrofiadau i'n hymwelwyr a allai gynnwys, teithiau tywys gan barcmon ac ymweliadau addysgol.
- Ymgymryd â gwaith cynnal a chadw safle penodol yn unol â chynlluniau rheoli priodol, er mwyn sicrhau bod y safleoedd yn addas i'w defnyddio ac yn ddiogel i bawb, gall hyn gynnwys gweithredu peiriannau ac offer sy'n gysylltiedig â dyletswyddau rheoli tir.

# Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Cyffredinol:

- Bod yn gyfrifol am eich diogelwch eich hun a diogelwch staff eraill ac unrhyw aelod o'r cyhoedd y gallai eich gweithredoedd a'ch methiannau effeithio arnynt yn y gwaith.
- Cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau hyfforddi a datblygu i gynnal datblygiad eich hun neu i wella cymhwysedd o fewn swydd.
- Cynnal ac integreiddio ein pwrpas a'n gwerth ym mhopeth a wnewch.
- Sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cwblhau yn unol ag ymrwymiad Awen i degwch ac amrywiaeth ac yn unol ag arfer gorau a deddfwriaeth.
- Nid yw hwn yn ddatganiad cyflawn o'r holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau sy'n ffurfio'r swydd hon, ac efallai fod yn rhaid ei amrywio i ddiwallu anghenion newidiol y busnes.

awen

# Manyleb Person

## Y Person (NODIR MEINI PRAWF HANFODOL FEL **(H)**:

- Angerddol a diddordeb mewn treftadaeth naturiol, cadwraeth natur, diwylliant a phrofiad y cwsmer. (H)
- Ymagwedd hyderus a phroffesiynol ac yn mwynhau rhwydweithio ac adeiladu perthnasoedd cadarnhaol gyda'r holl randdeiliaid. (H)
- Gweithio'n dda dan bwysau ac yn gallu rheoli blaenoriaethau lluosog yn effeithiol i derfynau amser llym. (H)
- Lefel dda o fenter, dyfeisgarwch, hyblygrwydd a dull hunanysgogol (H)
- Yn hyrwyddo amgylchedd gwaith cadarnhaol a chynhwysol ac yn credu yng ngwerthoedd, nodau ac amcanion Awen. (H)
- Yn gallu sefydlu dealltwriaeth dda o anghenion cwsmeriaid ac awydd i gyflawni safonau uchel.
- Dangos ymagwedd resymegol a rhagweithiol tuag at dasgau a dod o hyd i atebion.
- Yn cyfrannu at ethos o welliant parhaus ac yn ymateb yn gyflym ac yn gadarnhaol i gyfleoedd newydd.
- Yn arwain gyda chysondeb a thegwch yn ogystal â bod yn bwyllog ac adeiladol.
- Yn galluogi ac yn cymell eraill i wneud penderfyniadau a sicrhau canlyniadau.

# Cymwysterau, Sgiliau, Galluoedd a Phrofiad:
## (NODIR MEINI PRAWF HANFODOL FEL **(H)**):

- Cymhwyster lefel gradd mewn pwnc perthnasol (H)
- Profiad o weithio ym maes rheoli cefn gwlad (H)
- Trwydded yrru lawn a mynediad i'ch cerbyd eich hun at ddibenion gwaith (H)
- Y gallu i ymgymryd â gweithgareddau corfforol gan gynnwys cario, codi a defnyddio peiriannau (H)
- Cymhwyster Rheolaeth ILM lefel 4 neu gyfwerth, yn gallu dangos cymhwysedd trwy brofiad neu barodrwydd i ymgymryd â'r cymhwyster (H)
- Profiad mewn amrywiaeth o dasgau cynnal a chadw tir a gwybodaeth am arfer gorau (H)
- Gwybodaeth am ddeddfwriaeth ac arferion gwaith Iechyd a Diogelwch gan gynnwys eu cymhwyso i 'r gweithle (H)
- Profiad o weithio mewn rôl sy'n wynebu cwsmeriaid ar lefel oruchwylio neu reoli (H)
- Sgiliau rhyngbersonol rhagorol gyda'r gallu i gyfathrebu'n glir a dylanwadol yn ysgrifenedig ac ar lafar.
- Rheoli'n Ddiogel yn unol â Sefydliad Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol (IOSH) neu barodrwydd i ymgymryd â chymhwyster (H)
- Tystysgrif Cymorth Cyntaf
- Profiad o reoli cyllideb a chyfrannu at brosesau rheoli ariannol.
- Profiad o brosesau ymgeisio am grantiau a chyflawni prosiectau perthnasol
- Profiad o ddadansoddi, dehongli a chyflwyno gwybodaeth rheoli meintiol ac ansoddol.

Ymddiriedolaeth
Ddiwylliannol
Cultural Trust

Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen
Swyddfeydd y Stablau, Tŷ Bryngarw,
Brynmenyn, Pen-y-Bont, CF32 SUU

Awen Cultural Trust
Stable Offices, Bryngarw House,
Brynmenyn, Bridgend, CF32 SUU

+44 (o) 1656 754825
enqulrles@awen-wales.com
www.awen-wales.com

Rhif elusen gofrestredig / Registered charity number: n66908
Rhifcofrestru TAW / VAT registration number: 2243341 44
Rhifgofrestredig / Company number: 9610991

Mae Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen wedi'i chofrestru yng Nghymru fel cwmni cyfyngedig drwywarant.
**Awen CultuI"al Trust is registered in Wales as a company limited by guarantee.**